ATODLEN 4 Rheoliad 44

COFNODION A GYNHELIR GAN Y CYNGOR

# RHAN 1

## Dehongli

**1.** At ddibenion yr Atodlen hon mae cyfeiriad at berson cofrestredig yn Atodlen 2 i'w gymryd fel cyfeiriad at un o'r personau hynny a nodir yn Rhan 2 o'r Atodlen hon.

# RHAN 2

## Personau y mae'n ofynnol i'r Cyngor gynnal cofnodion ar eu cyfer

**2.** Personau y mae eu henwau wedi eu tynnu oddi ar y Gofrestr heblaw am y rhai hynny y tynnwyd eu henwau oddi arni ar eu cais hwy eu hunain neu a fu farw.

**3.** Personau sy'n anghymwys i gofrestru yn rhinwedd adran 10(3) o Ddeddf 2014.

**4.** Athrawon cymwysedig nad ydynt yn athrawon cofrestredig.

**5.** Personau nad ydynt yn athrawon cofrestredig ac sydd wedi cychwyn cwrs hyfforddiant cychwynnol athrawon, pa un ai ydynt wedi cwblhau cwrs o'r fath ai peidio.

**6.** Personau nad ydynt yn athrawon cymwysedig sydd wedi eu cyflogi fel athrawon mewn ysgolion a gynhelir gan awdurdod lleol.

**7.** Personau nad ydynt yn athrawon cymwysedig sy'n paratoi ar gyfer Cymhwyster Proffesiynol Cenedlaethol ar gyfer Prifathrawiaeth neu sydd wedi ei ennill.

**8.** Personau nad ydynt yn dod o fewn yr un o'r categorïau a grybwyllwyd uchod ac nad ydynt yn bersonau cofrestredig—

(a) y neilltuwyd rhif cyfeirnod swyddogol ar eu cyfer; a

(b) sy'n gyflogedig, neu sydd wedi bod yn gyflogedig ar un adeg, fel athro neu athrawes mewn ysgol neu sefydliad addysgol arall.

(2) Personau nad ydynt wedi eu cofrestru o dan unrhyw gategori cofrestru ond sy'n gymwys i gael eu cofrestru ac y mae'r Cyngor yn ei hystyried yn briodol cofnodi'r wybodaeth a nodir yn Rhan 2 amdanynt.

# RHAN 3

## Gwybodaeth sydd i'w chynnwys yn y cofnodion

**9.** Yr wybodaeth a nodir ym mharagraffau 3 i 25 o Ran 1 o Atodlen 2.

**10.** Pan fo'r person wedi ei gofrestru'n flaenorol ond wedi ei dynnu oddi ar y Gofrestr ers hynny—

(a) y categori neu gategorïau cofrestru yr oeddent wedi eu cofrestru ynddo/ynddynt yn flaenorol;

(b) dyddiad eu cofrestriad cyntaf; ac

(c) y dyddiad diweddaraf y bu iddynt gael eu tynnu oddi ar y Gofrestr.

**11.** Yr wybodaeth a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 2.

**12.** Pan fo'r person yn anghymwys i gofrestru yn unol ag adran 10 a rheoliadau a wnaed o dan adrannau 12 neu 13 o Ddeddf 2014, manylion y cyfarwyddyd, y gorchymyn disgyblu neu'r gwaharddiad arall y mae'r person yn anghymwys i gofrestru o'i herwydd.

**13.** Pan fo person yn anghymwys i gofrestru yn unol ag adran 10 o Ddeddf 2014 am nad yw'r Cyngor yn fodlon bod y person yn addas i gael ei gofrestru, manylion ynghylch y sail dros wneud y penderfyniad i wrthod y cais.

**14.** Pan fo enw'r person wedi ei dynnu oddi ar y Gofrestr, manylion ynghylch y sail dros dynnu enw'r person oddi ar y Gofrestr.

**15.** Os yw'r person wedi ei wahardd rhag cyflawni gweithgaredd a reoleiddir yn ymwneud â phlant (o fewn ystyr adran 3(2) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006), datganiad o'r ffaith honno.

**16.** Os yw'r person wedi ei wahardd rhag cyflawni gweithgaredd a reoleiddir yn ymwneud ag oedolion hyglwyf (o fewn ystyr adran 3(3) o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006), datganiad o'r ffaith honno.